Rhif: **WG 17702**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Drafft Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

Dyddiad cyhoeddi: **9 Ebrill 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Mehefin 2013**

## Trosolwg

Mae iechyd gwenyn a phryfed peillio'n peri pryder mawr yn y DU ac yn fyd-eang.

Mae pryfed peillio'n elfen hanfodol o'n hamgylchedd. Gwenyn mêl yw'r prif bryfed sy'n cael eu cadw i beillio cnydau, ac maent hefyd yn darparu eu cnwd eu hunain. Mae pryfed peillio gwyllt, gan gynnwys cacwn/gwenyn bwm, gwenyn unigol eraill, gwenyn meirch/picwn parasitig, pryfed hofran, gloÿnnod byw a gwyfynod a rhai chwilod, hefyd yn bryfed peillio pwysig yng Nghymru, ar gyfer cnydau fel olew had rêp a ffrwythau, meillion a phlanhigion eraill sy'n sefydlogi nitrogen sy'n bwysig i wella cynhyrchiant systemau pori ar gyfer da byw a blodau gwyllt. Maent yn cyfrannu at amrywiaeth rhywogaethau planhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt yng Nghymru, yn ogystal â'i gwydnwch a'i harddwch naturiol. Mae hyn yn darparu bwyd, yn gwneud Cymru'n lle gwell i bobl fwynhau ac ymweld â hi ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ein heconomi.

Mae peillio'n wasanaeth hollbwysig a ddarperir gan yr amgylchedd. Mae ugain y cant o'r tir lle tyfir cnydau yn y DU yn dibynnu ar bryfed peillio, ac mae cyfran uchel o blanhigion blodeuol gwyllt yn dibynnu ar bryfed peillio i atgenhedlu. Yn ôl amcangyfrif ceidwadol, mae pryfed peillio yn werth £430 miliwn y flwyddyn i amaethyddiaeth yn y DU.

Fodd bynnag, dangosodd yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2011 fod pryfed peillio cadw (gwenyn mêl) a phryfed peillio gwyllt (pryfed hofran a gwenyn heb eu rheoli) wedi bod yn prinhau'n ddifrifol dros y 30 mlynedd ddiwethaf, ac mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau os na wnawn ni rywbeth yn awr.

Datblygir y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Pryfed Peillio mewn partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i'n helpu ni i weld sut y gallem arafu a gwrthdroi'r prinhad hwn yn eu niferoedd.

## Sut i ymateb

Gallwch anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn naill ai mewn e-bost;

biodiversity@wales.gsi.gov.uk
or bost:

Cangen Natur, Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

Cangen Natur, Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

e-bost: biodiversity@wales.gsi.gov.uk
ffôn: 0300 062 2285

Front cover picture © Bumblebee Conservation Trust

© Hawlfraint y Goron 2013

## Rhagair y Gweinidog



Yn y Sioe Fawr fis Gorffennaf diwethaf, cyhoeddodd fy rhagflaenydd John Griffiths ei fwriad i gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio a fydd yn sicrhau bod Cymru'n cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar bryfed peillio yng Nghymru.

Yn ôl amcangyfrif ceidwadol, mae pryfed peillio yn werth £430 miliwn y flwyddyn i'r DU, sy'n golygu bod peillio'n wasanaeth ecosystem hanfodol bwysig. Fodd bynnag, er gwaethaf eu pwysigrwydd, mae niferoedd pryfed peillio wedi bod yn dirywio dros y 30 mlynedd ddiwethaf ac, os na wnawn ni weithredu yn awr, bydd y duedd hon yn parhau.

Calonogol iawn oedd gweld cymaint o ddiddordeb oedd gan bob math o bobl, gydag awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i lywio'r ddogfen ymgynghori hon ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau ar sut y gallwn ni roi cynllun ar waith i gyflawni'r nod o arafu a gwrthdroi'r prinhad hwn yn niferoedd pryfed peillio yma yng Nghymru.

Yn sgil yr ymgynghoriad hwn, fy mwriad yw lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio, sef y cynllun cyntaf o'i fath yn y DU, yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf 2013.



Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

## Beth yw'r prif faterion?

Mae pryfed peillio - gwenyn mêl cadw a phryfed peillio gwyllt, gan gynnwys cacwn/gwenyn bwm, gwenyn eraill, gwenyn meirch/picwn parasitig, pryfed hofran, gloÿnnod byw a gwyfynod a rhai chwilod – yn bwysig i Gymru; ar gyfer cnydau, meillion a phlanhigion eraill sy'n sefydlogi nitrogen sy'n bwysig i wella cynhyrchiant systemau pori ar gyfer da byw a blodau gwyllt. Maent hefyd yn cyfrannu at amrywiaeth rhywogaethau planhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt yng Nghymru. Yn ogystal â gwella bioamrywiaeth Cymru, ei gwydnwch a'i harddwch naturiol, maent yn darparu bwyd, yn gwneud Cymru'n lle gwell i bobl ei fwynhau ac ymweld ag ef ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ein heconomi.

Pe baem yn colli'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, amcangyfrifir y byddai peillio â llaw yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn yn y DU[1].

Er mwyn i bryfed peillio ffynnu, mae arnynt angen ffynonellau neithdar a safleoedd nythu a geir mewn cynefinoedd lled-naturiol, tirweddau amaethyddol ac ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae gwenyn mêl wedi dirywio 23% yng Nghymru rhwng 1985 a 2005, ac mae'r duedd hon yn parhau[2]. Mae gloÿnnod byw, pryfed hofran a llawer o rywogaethau o wyfynod hefyd yn dirywio ledled Cymru. Mae dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd lled-naturiol pwysig eraill hefyd wedi dirywio ledled Cymru.

Amcangyfrifir bod tua 3,377 o geidwaid gwenyn yng Nghymru, gyda 4,388 o wenynfeydd a 18,294 o nythfeydd o wenyn mêl. Mae cadw gwenyn yn dod yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru. Arweiniodd lledaeniad y gwiddon *Varroa* o 1994 ymlaen yng Nghymru at golledion mawr ond, erbyn hyn, mae ceidwaid gwenyn wedi dysgu i reoli pla *Varroa*, felly gellir priodoli llai o golledion y gaeaf i'r broblem hon. Fodd bynnag, mae'r colledion dros y ddau aeaf diwethaf wedi bod yn uwch na'r disgwyl.

Mae 63% o'r gloÿnnod byw yng Nghymru'n prinhau, ac mae 28% o wyfynod Cymru'n prinhau'n ddifrifol. Mae rhywogaethau eraill sydd o dan fygythiad, megis y gardwenynen fain a'r wenynen gorniog, yn prinhau yng Nghymru, ac mae eu tiriogaethau'n crebachu.

## Tystiolaeth o newid

Y prif feysydd pryder i bryfed peillio cadw a gwyllt yw ffermio dwys a'r symudiad tuag at ffermio ungnwd, dinistrio neu ddarnio cynefinoedd, clefyd, y defnydd o agrogemegau a'r newid yn yr hinsawdd. Mae rhagor o fanylion yn y Cynllun Drafft.

Mae arnom angen pryfed peillio – a dyma yw ein gweledigaeth:

**Mae gan Gymru'r amodau i gefnogi poblogaethau iach o bryfed peillio gwyllt a chadw er lles pobl, economi ac amgylchedd Cymru.**

---

[1] Breeze TD, Roberts SPM, Potts SG, 2012, The decline of England's Bees, Prifysgol Reading a Cyfeillion y Ddaear http://www.foe.co.uk/resource/briefings/beesreport.pdf
[2] Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol (NEA) y DU, 2011, The UK National Ecosystem Assessment Technical Report. UNEP-WCMC, Caergrawnt.

## Agenda ar gyfer gweithredu

Mae dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, a mewnbwn gan ein rhanddeiliaid, yn dangos y dylai'r Cynllun Gweithredu ganolbwyntio ar ddarparu cynefinoedd gwell a mwy cydgysylltiedig a fydd yn cefnogi pryfed peillio gwyllt a chadw ar dir ffermydd, yng nghefn gwlad yn ehangach ac mewn ardaloedd trefol a datblygedig.

Dylid cefnogi hyn trwy sicrhau poblogaethau iach o bryfed peillio, mwy o ymwybyddiaeth o bryfed peillio a'u pwysigrwydd a pholisïau a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Rydym yn gobeithio y bydd y meysydd gweithredu hyn yn ein helpu hefyd i ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i ddatblygu camau er lles yr amgylchedd, ein heconomi a phobl Cymru.

## Sut y gallwch chi helpu?

Mae'r Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Pryfed Peillio wedi'i atodi i'r ddogfen ymgynghori hon. Rydym wedi ceisio nodi pwysigrwydd pryfed peillio yng Nghymru, eu statws presennol a'r prif resymau dros eu dirywiad. Rydym wedyn wedi cynnig y canlyniadau y byddwn yn gweithio tuag atynt er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, ac wedi rhoi rhai enghreifftiau o'r camau gweithredu y gallwn ni fel Llywodraeth Cymru eu cymryd.

Rydym yn croesawu mewnbwn ac adborth ar y cynllun drafft hwn, yn enwedig ar sut y gallwch chi gyfrannu ymhellach, a sut y gallwn ni eich helpu i wneud hynny.

Os hoffech chi wneud sylwadau ar y cynigion hyn, amlinellir nifer o gwestiynau isod.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth ar gyfer pryfed peillio yng Nghymru?

**Cwestiwn 2**: A ydym wedi nodi'r prif feysydd pryder mewn perthynas â phryfed peillio yng Nghymru neu a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech chi eu nodi?

**Cwestiwn 3**: Ydych chi'n cytuno â'r canlyniadau a nodir, ac â'r meysydd gweithredu i'w cyflawni? Croesewir eich sylwadau.

**Cwestiwn 4**: Sut y gallech chi gyfrannu ymhellach at y meysydd gweithredu a nodir? Sut y gallem eich helpu i wneud hynny?

**Cwestiwn 5**: A hoffech chi gyfrannu at ddatblygu'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau? Os felly, ym mha ffordd?

**Cwestiwn 6:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon eraill nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gallwch nodi'r pryderon hynny isod:

Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech chi i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y bocs: ☐

# Cynllun Gweithredu Drafft Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **1**

- Beth yw pryfed peillio?
- Beth sydd ei angen ar bryfed peillio?
- Pam mae angen i ni weithredu?
- Beth yw'r prif fygythiadau?
- Y Cynllun Gweithredu

**2. Ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru** **6**

- Y Rhaglen Lywodraethu
- Cynnal Cymru Fyw
- Bioamrywiaeth
- Strategaethau eraill Llywodraeth Cymru
- Pryfed Peillio a Dull Rheoli'r Ecosystem

**3. Y Sefyllfa yng Nghymru** **10**

- Poblogaethau pryfed peillio
- Y prif feysydd pryder
- Llywodraethu a Seilwaith
- Ymchwil a Mentrau

**4. Agenda ar gyfer Gweithredu** **16**

**5. Casgliad a Chamau Nesaf** **22**


Polisi Bioamrywiaeth, Is-adran Tir, Natur, Coedwigaeth a Môr
25 Mawrth 2013

# 1. Cyflwyniad

Mae pryfed peillio’n elfen hanfodol o’n hamgylchedd. Gwenyn mêl yw’r prif bryfed sy’n cael eu cadw i beillio cnydau, ac maent hefyd yn darparu eu cnwd eu hunain. Mae pryfed peillio gwyllt, gan gynnwys cacwn, gwenyn unigol eraill, gwenyn meirch parasitig, pryfed hofran, gloÿnnod byw a gwyfynod a rhai chwilod, hefyd yn bryfed peillio pwysig yng Nghymru, ar gyfer cnydau fel olew had rêp a ffrwythau, meillion a phlanhigion eraill sy’n sefydlogi nitrogen sy’n bwysig i wella cynhyrchiant systemau pori ar gyfer da byw a blodau gwyllt. Maent yn cyfrannu at amrywiaeth rhywogaethau planhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt yng Nghymru, yn ogystal â’i gwydnwch a’i harddwch naturiol. Maent yn darparu bwyd, yn gwneud Cymru’n lle gwell i bobl ei fwynhau ac i ymweld ag ef ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ein heconomi.

### *Beth yw pryfed peillio?*

Ceir gwahaniaethau tafodieithol eithaf sylweddol yn y Gymraeg wrth ymdrin ag aelodau’r teulu pryfed neu drychfilod. Felly er eglurhad, yn y cynllun hwn, rydym wedi defnyddio’r gair ‘pryfed’ i olygu ‘insects’, cacwn yn lle gwenyn bwm (bumble bees), gwenyn meirch yn lle picwn (wasps) a chlêr yn lle pryfaid (flies).

Yn y cynllun hwn, mae pryfed peillio yn cynnwys pob math o wenyn, rhai gwenyn meirch, gloÿnnod byw, gwyfynod a phryfed hofran.

Mae **gwenyn a gwenyn meirch** yn casglu paill a neithdar o flodau i fwydo eu hunain a’u hepil ifanc. Mae planhigion blodeuol wedi esblygu i fanteisio ar hyn trwy gynnig neithdar i’r pryfed sydd fwyaf tebygol o gario eu paill i blanhigyn arall.

Mae cychod gwenyn mêl modern yn cael eu symud o gnwd i gnwd, a gall ceidwaid gwenyn godi tâl am eu gwasanaethau peillio a chynaeafu’r mêl a chynhyrchion eraill. Fe’u defnyddir i beillio cnydau fel perllannau a ffrwythau meddal (teulu’r rhosyn), olew had rêp a chnydau brasica eraill (teulu’r bresych) a phys a ffa (codlysiau).

Mae cacwn a rhywogaethau eraill o wenyn unigol hefyd yn bryfed peillio pwysig sy’n helpu i gynnal poblogaethau o blanhigion gwyllt a chynhyrchu cnydau masnachol, yn enwedig perllannau a ffrwythau meddal a chnydau a ddiogelir fel tomatos.

Yn aml, mae gwenyn meirch yn bwydo ar neithdar wrth chwilio am bryfed eraill all fod yn blâu ar gnydau i fwydo arnynt. Defnyddir llawer o rywogaethau o bicwn parasitig fel cyfryngau rheoli biolegol llwyddiannus.

Mae **gloÿnnod byw a gwyfynod** yn peillio planhigion i wahanol raddau wrth i’r oedolyn fwydo ar neithdar. Nid ydynt yn bwysig o ran cnydau bwyd yn y DU ond maent yn bwysig fel peillwyr blodau gwyllt.

Mae **pryfed hofran** yn doreithiog ar flodau drwy'r flwyddyn bron ac mae'r oedolion yn bwydo ar neithdar a phaill. Y rhywogaeth sy'n elwa fwyaf ar beillio gan bryfed hofran yn fyd-eang yw blodyn yr haul. Fodd bynnag, mae'r larfau'n bwyta deiet mwy amrywiol o lawer sy'n cynnwys pryfed eraill yn aml. Oherwydd hyn, defnyddir rhywogaethau ysglyfaethus o bryfed hofran fel rhan o Raglen Integredig ar gyfer Rheoli Plâu (IPM) fel cyfryngau rheoli biolegol.

## *Beth sydd ei angen ar bryfed peillio?*

Mae ar bryfed peillio angen bwyd ar ffurf neithdar o flodau, a chysgod i nythu ynddo, er enghraifft tyllau a boncyffion coed.

Er mwyn eu darparu, mae ar bryfed peillio angen cynefinoedd lled-naturiol megis dolydd blodau gwyllt, gwrychoedd/perthi ac ymylon coetiroedd, a thirweddau amaethyddol sy'n cynnwys glaswelltir heb ei wella, gweirgloddiau, glaswelltiroedd sy'n llawn meillion, perllannau a chnydau âr. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynefinoedd a'r defnyddiau tir hyn yn prinhau neu'n brin iawn yng Nghymru. Mae arnynt hefyd angen ffynonellau neithdar o ddechrau'r gwanwyn tan ddiwedd yr hydref.

Gellir darparu bwyd a chysgod iddynt hefyd mewn gerddi, parciau, ymylon ffyrdd ac unrhyw fan agored arall. Maent yn gymharol hawdd eu darparu, er enghraifft trwy blannu neu gadw rhywogaethau o blanhigion sy'n bwysig i bryfed peillio, gan gynnwys, er enghraifft, y bengaled fawr mewn dolydd blodau gwyllt, helyg mewn gwrychoedd a choetiroedd a Chosmos mewn gwelyau blodau.

## *Pam mae angen i ni weithredu?*

Mae manteision lu i gefnogi ein pryfed peillio. Maent yn rhan hanfodol o ecosystemau iach, gan ddarparu:

- bwyd – uniongyrchol (mêl) ac anuniongyrchol (cnydau)
- amgylchedd amrywiol a deniadol

a chefnogi:

- iechyd a lles
- twristiaeth
- economïau gwledig
- mannau gwyrdd trefol

Mae Ffigur 1 yn dangos llawer mwy o'r gwasanaethau ecosystem cysylltiedig hyn a'r manteision i gymdeithas.

Yn 2007, roedd peillio'n werth £430 miliwn i farchnad gnydau'r DU[3]. Er nad oedd modd mesur y gwerth yng Nghymru, rydym yn gwybod bod pryfed peillio'n hollbwysig i gynnal llawer o fathau o lystyfiant ar draws holl gynefinoedd tir Cymru. Pe baem yn colli'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, amcangyfrifir y byddai peillio â llaw yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn yn y DU[4]. Mae gwerth y mêl a gynhyrchir yng Nghymru'n sylweddol hefyd, gyda gwerth cyfanwerthol o dros £2 miliwn yn 2011[5].

Fodd bynnag, mae iechyd gwenyn a phryfed peillio a'r dirywiad yn eu poblogaethau'n peri pryder mawr yn y DU ac yn fyd-eang. Mae gwenyn mêl wedi gostwng 23% yng Nghymru rhwng 1985 a 2005, ac mae'r duedd hon yn parhau ar hyn o bryd[6]. Mae gloÿnnod byw, pryfed hofran a llawer o rywogaethau o wyfynod hefyd yn prinhau ledled Cymru. Mae dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd lled-naturiol pwysig eraill hefyd yn prinhau.

## *Beth yw'r prif fygythiadau?*

Y prif feysydd pryder i bryfed peillio yw ffermio dwys a'r symudiad tuag at ffermio ungnwd, dinistrio neu ddarnio cynefinoedd, clefyd, defnyddio agrogemegau a'r newid yn yr hinsawdd.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am bwysigrwydd pob un o'r pryderon hyn ac i ba raddau y mae cydberthynas rhyngddynt, ac maent yn destun mentrau ymchwil fel y Fenter Pryfed Peillio a ariennir gan Defra a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC).

## *Y Cynllun Gweithredu*

Yn sgil cyhoeddi'r Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol ac yn dilyn y galw gan randdeiliaid, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r diwydiant a Chyrff Anllywodraethol i archwilio'n fanylach y dystiolaeth a'r pryderon ynglŷn â phryfed peillio a'u cadwraeth yng Nghymru.

Rydym wedi dilyn camau Fframwaith y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem[7], sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, i nodi'r rhanddeiliaid allweddol, deall y sbardunau, y materion a'r cyfleoedd allweddol a phennu'r weledigaeth a'r amcanion. Cyflwynodd rhanddeiliaid restr hir o ddewisiadau, ac rydym wedi nodi rhai meysydd lle gallwn ni roi'r dewisiadau hyn ar waith.

Bydd egwyddorion rhagofal, ymyrraeth gynnar ac osgoi'r risg o effeithiau economaidd negyddol yn cael eu mabwysiadu yn y camau gweithredu i rwystro pryfed peillio yng Nghymru rhag prinhau ymhellach.


---

[3] Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol (NEA) y DU, 2011, The UK National Ecosystem Assessment Technical Report. UNEP-WCMC, Caergrawnt.
[4] Breeze TD, Roberts SPM, Potts SG, 2012, The decline of England's Bees, Prifysgol Reading a Cyfeillion y Ddaear http://www.foe.co.uk/resource/briefings/beesreport.pdf
[5] Amcangyfrif yr Uned Wenyn Genedlaethol ar sail gwybodaeth gan Arolygwyr Gwenyn.
[6] NEA megis cynt.
[7] Llywodraeth Cymru, 2012, Fframwaith Cyffredinol Drafft y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem, yn cael ei ddatblygu.

Mae Adran 2 o'r cynllun hwn yn nodi ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru a'i pherthynas â'n blaenoriaethau a'n polisïau.

Mae Adran 3 yn disgrifio'r Sefyllfa Bresennol yng Nghymru ac yn nodi meysydd posibl ar gyfer gweithredu.

Mae Adran 4 yn amlinellu Agenda ar gyfer Gweithredu – y canlyniadau a meysydd gweithredu a nodwyd a sut y gallwn ni yn Llywodraeth Cymru weithio tuag atynt.




Ffigur 1: Y Gwasanaethau Ecosystem a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol[8]. Mae peillio'n rhyngweithiad ecolegol sy'n rhan o'r gwasanaethau ategol allweddol; hebddynt, ni fyddem yn derbyn llawer o'r gwasanaethau darparu, rheoli a diwylliannol eraill, na'r manteision i gymdeithas.

[8] Llywodraeth Cymru, 2012, Fframwaith Cyffredinol Drafft y Dull Ecosystem, yn cael ei ddatblygu.

## 2. Ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru

Dyma ein gweledigaeth:

**Mae gan Gymru'r amodau i gefnogi poblogaethau iach o bryfed peillio gwyllt a chadw er lles pobl, economi ac amgylchedd Cymru.**

Bydd y weledigaeth neu'r canlyniad hwn yn helpu i gyflawni llawer o bolisïau a chanlyniadau eraill Llywodraeth Cymru, ac yn cyfrannu at sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer y DU.

### *Y Rhaglen Lywodraethu*

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys camau gweithredu allweddol ar fyw o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd a diogelu ecosystemau iach, gydag Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn arwain ar:

- Greu llefydd cynaliadwy trwy ddarparu seilwaith ar gyfer y 21ain Ganrif (ym maes gwastraff, dŵr, rheoli perygl llifogydd, effeithlonrwydd ynni a chyflenwad ynni) sy'n ein symud tuag at economi carbon isel ac yn sicrhau ein bod yn gallu gwrthsefyll pwysau amgylcheddol yn y dyfodol
- Rheoli ecosystemau Cymru (ein "seilwaith gwyrdd") i sicrhau canlyniad hirdymor cadarnhaol ar gyfer dŵr, aer, pridd, tirwedd a bioamrywiaeth
- Dod â'n hamcanion amgylcheddol a'r gwaith o reoli ein seilwaith gwyrdd ynghyd gyda'n hamcanion cymdeithasol ac economaidd er mwyn gwella lles yn gyffredinol a helpu pobl, cymunedau, y sector cyhoeddus a busnesau i wneud hynny hefyd.

### *Cynnal Cymru Fyw*

Cynnig canolog Cynnal Cymru Fyw yw symud tuag at ddull rheoli a rheoleiddio'r amgylchedd ar lefel yr ecosystem. Bydd hyn yn golygu ystyried a rheoli'r amgylchedd a'i iechyd yn gyffredinol yn hytrach na mynd i'r afael ag agweddau unigol ar wahân. Bydd yn golygu pwyso a mesur a phennu blaenoriaethau ar gyfer yr holl alw amrywiol ar ein hadnoddau naturiol er mwyn darparu gwahanol wasanaethau i gymdeithas – yn amrywio o werth yr amgylchedd ei hun i gynhyrchu bwyd i dir ar gyfer adeiladu. Bydd hefyd yn golygu y bydd rhaid i ni gymryd camau ar lefel leol a chenedlaethol a fydd yn helpu i wneud y gorau o'r cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sydd ar gael i ni fel cenedl. Gweler Blwch 1 am fwy o fanylion sut y gallai hyn effeithio ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.

Ar y cyfan, rydym yn disgwyl y bydd y dull newydd yn:

- gwella gwydnwch ac amrywiaeth ein hamgylchedd a'r fioamrywiaeth sy'n ei gynnal;
- darparu rheoliadau symlach a mwy cost-effeithiol; a
- chynnig mwy o sicrwydd i benderfynwyr.

Mae hyn yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ac i sefydlu'r hinsawdd gadarnhaol ar gyfer buddsoddiad a chreu swyddi hirdymor cynaliadwy yn ein cymunedau trefol a gwledig, sy'n arbennig o bwysig ar hyn o bryd.

## *Bioamrywiaeth*

Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru'n deillio o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r targedau Aichi cysylltiedig[9], ac ymateb yr UE i hyn yn *Our life insurance, our natural capital: an EU Biodiversity Strategy to 2020*. Mae Cymru'n cefnogi'r weledigaeth a'r targed yn y strategaeth hon a bydd y cynllun ar gyfer pryfed peillio'n cyfrannu at sut y bydd Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau statudol i adnoddau naturiol ac yn gweithio tuag at gyflawni targedau'r EUBS:

### Gweledigaeth 2050:

Erbyn 2050, bydd bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu darparu — ei gyfalaf naturiol — yn cael eu diogelu, eu gwerthfawrogi a'u hadfer oherwydd gwerth cynhenid bioamrywiaeth, cyfraniad y gwasanaethau hynny at les pobl a ffyniant economaidd, ac er mwyn osgoi'r newidiadau catastroffig a ddaw o golli bioamrywiaeth.

### Prifdarged 2020:

Atal colli bioamrywiaeth a dirywiad gwasanaethau ecosystem yn yr UE erbyn 2020, a'u hadfer cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, a chynyddu cyfraniad yr UE at atal colli bioamrywiaeth y byd

Dyma chwe tharged cyffredinol Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE:

Targed 1: Rhoi'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd ar waith yn llawn
Targed 2: Cynnal ac adfer ecosystemau a'u gwasanaethau
Targed 3: Cynyddu cyfraniad amaethyddiaeth a choedwigaeth at fioamrywiaeth
Targed 4: Sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy
Targed 5: Mynd i'r afael â Rhywogaethau Goresgynnol Estron

[9] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Strategic Plan for Biodiversity 2011 – 2020 and the Aichi Biodiversity Targets, Living in Harmony with Nature http://www.cbd.int/decision/cop/?id=12268

Targed 6: Cynyddu camau i fynd i'r afael ag argyfwng bioamrywiaeth y byd.

## Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig

Mae Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC") yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried gwarchod bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n cyd-fynd ag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

Yng Nghymru, mae Adran 42 o'r Ddeddf yn nodi rhestr o rywogaethau blaenoriaeth a fydd yn ganllaw i benderfynwyr fel cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthol, wrth wneud eu dyletswydd am fioamrywiaeth. Mae'r rhestr hon yn cynnwys llawer o bryfed peillio, gan gynnwys gwyfynod, glöynnod byw, gwenyn, pryfed hofran a llawer o rywogaethau eraill sy'n dibynnu ar bryfed peillio, yn enwedig planhigion, ond hefyd mamaliaid fel y pathew a'r wiwer goch sy'n dibynnu ar ffrwythau ac aeron mewn rhai tymhorau[10].

## *Strategaethau eraill Llywodraeth Cymru*

Mae llawer o Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu eraill ar waith ledled Llywodraeth Cymru a all helpu i wireddu ein gweledigaeth, a bydd y camau gweithredu yn y cynllun hwn yn cyfrannu atynt.

Mae'r strategaethau a'r cynlluniau hyn yn cynnwys gweithredu er lles bioamrywiaeth, er enghraifft:

- Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad - Creu Dyfodol Cadarn - Strategaeth Newydd ar gyfer Ffermio
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Gefnffyrdd
- Polisi Cynllunio Cymru
- Cyfarwyddyd Polisi Cynllunio: Nodyn Cyngor Technegol 5, Cynllunio a Chadwraeth Natur a Nodyn Cyngor Technegol 22, Adeiladau Cynaliadwy

[10] I weld rhestrau Adran 42, ewch i: http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Section-42-Lists

**Blwch 1: Pryfed Peillio a Dull Rheoli'r Ecosystem**

Diffinnir Dull Rheoli'r Ecosystem fel strategaeth i reoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd integredig sy'n hyrwyddo cydbwysedd teg rhwng cadwraeth natur a defnydd cynaliadwy (Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol).

Mae dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn ffordd o edrych ar ein hamgylchedd naturiol a'r gwasanaethau, megis bwyd, ffibr a dŵr glân, rheoli perygl llifogydd, dal carbon a mannau gwyrdd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, y mae'n ei ddarparu. Mae'n ymwneud â phenderfynu sut y gellir darparu'r manteision i bobl (swyddi, bywoliaeth, iechyd) dros y tymor hir a sicrhau bod yr ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt yn gweithredu'n iach. Hanfod y dull yw edrych ar y darlun yn ei gyfanrwydd – yr holl brosesau naturiol amrywiol – a'r gydberthynas rhyngddynt, yn hytrach nag ystyried un neu ddwy agwedd ar y tro.

Mae'r broses beillio'n enghraifft o "wasanaeth" ecosystem – rydym yn dibynnu ar weithredoedd pryfed peillio i sicrhau cyflenwad parhaus o blanhigion, coed a blodau. Yn ei dro, mae hyn yn darparu bwyd i ni ac anifeiliaid eraill yn y gadwyn fwyd ac yn sicrhau amgylchedd naturiol iach, gwydn ac amrywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn rhan annatod o'r ffordd y mae'n rheoli ei holl weithgareddau mewn perthynas ag adnoddau naturiol. Mae'n datblygu'r gwaith hwn trwy'r **Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol**, sy'n cynnwys dangos beth y gellir ei gyflawni trwy ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem, gan ddeddfu ar gyfer dull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol trwy Fil yr Amgylchedd ac ymwreiddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn ei gynlluniau a'i gweithredoedd.

Rydym yn sylweddoli mai dim ond un fantais o blith llawer a ddarperir gan ecosystemau iach yw peillio. Trwy ymwreiddio'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn fwy eang ledled y Llywodraeth, byddwn yn darparu sail cadarnach i'r amodau naturiol y mae pryfed peillio'n dibynnu arnynt, gan sicrhau manteision i ni yn y tymor hir. Mae angen i ni sicrhau bod ein holl weithredoedd er lles pryfed peillio yn ystyried y goblygiadau ehangach ar brosesau a systemau naturiol ac wrth wneud hynny, yn ceisio sicrhau cymaint o fanteision â phosibl i bobl, busnesau a natur.

# 3. Y Sefyllfa yng Nghymru

Mae yna dystiolaeth o ddirywiad eang yn niferoedd pryfed peillio ledled y DU, a'r prif resymau pam eu bod yn prinhau. Er bod yna ddata ar y sefyllfa yng Nghymru ar gyfer rhai pryfed peillio a'r rhesymau drosti, mae angen gwneud llawer mwy o ymchwil i gael y darlun llawn.

## *Poblogaethau pryfed peillio*

### Pryfed peillio cadw

Mae'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) yn cadw cofrestr o geidwaid gwenyn yng Nghymru a Lloegr (Beebase) sy'n dangos bod 2,702 o geidwaid gwenyn, gyda 3,511 o wenynfeydd a 14,635 o nythfeydd gwenyn mêl yng Nghymru.

Fodd bynnag, amcangyfrifir bod yna 25% arall o geidwaid gwenyn nad ydynt wedi'u cofrestru ar Beebase, a fyddai'n cynyddu'r cyfansymiau i 3,377 o geidwaid gwenyn, 4,388 o wenynfeydd a 18,294 o nythfeydd gwenyn mêl yng Nghymru.

Bob blwyddyn, mae ceidwaid gwenyn newydd yn cofrestru ar Beebase ac mae'r aelodau newydd hyn wedi cynyddu bob blwyddyn yng Nghymru, o 102 yn 2007 i 404 yn 2011 (gyda gostyngiad i 256 yn 2012), sy'n dangos twf poblogrwydd gwenyna fel hobi, er bod 40% o nythfeydd gwenyn yn cael eu rheoli'n fasnachol.

Yn 2011, cynhyrchwyd 427 tunnell o fêl yng Nghymru ag iddo werth cyfanwerthol o dros £2 miliwn[11].

### Pryfed peillio gwyllt

<u>Gwenyn cymdeithasol neu wenyn unig</u>

Mae cryn dystiolaeth o'r dirywiad yn y DU, a gallwn ddweud â sicrwydd bod gwasgariad llawer o rywogaethau a oedd unwaith yn fwy eang yng Nghymru wedi crebachu'n sylweddol. Mae poblogaethau mewndirol fel arfer wedi'u colli ac mae'r poblogaethau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i gynefinoedd arfordirol e.e. y gardwenynen feinlais (*Bombus sylvarum*), y gardwenynen lwydfrown (*B.humilis*)[12] a'r wenynen gorniog (*Eucera longicornis*). Mae'r dirywiad hwn yn eu gwasgariad yn y DU wedi'i gofnodi mewn sawl atlas dros dro a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cofnodion Biolegol[13].

---

[11] Amcangyfrif yr Uned Wenyn Genedlaethol o wybodaeth a ddarparwyd gan Arolygwyr Gwenyn.
[12] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 1997, Gweithredu dros fywyd gwyllt: cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth: yr her i Gymru, CCGC.
[13] http://www.brc.ac.uk/

Glöynnod byw[14]

O'r 43 o rywogaethau o loÿnnod byw a welir yng Nghymru, mae 10 yn prinhau'n ddifrifol ac 17 yn prinhau. Er bod 11 o rywogaethau'n sefydlog neu'n cynyddu, yn gyffredinol mae 63% o loÿnnod byw Cymru'n prinhau.

Gwyfynod[15]

Mae 337[16] o wyfynod macro (mawr) eang eu gwasgariad (a welir mewn mwy na 23 o sgwarau 10 cilometr) wedi'u cofnodi yng Nghymru.

Mae 93 o'r gwyfynod macro eang eu gwasgariad a gofnodir yng Nghymru naill ai 'mewn perygl' neu'n 'fregus' o dan feini prawf IUCN (yn seiliedig ar dueddiadau poblogaeth 10 mlynedd dros 35 mlynedd). Yn gyffredinol, mae 28% o'r gwyfynod sy'n eang eu gwasgariad yng Nghymru'n prinhau'n ddifrifol.

Mae yna hefyd nifer o glêr a gwenyn meirch ar restr Adran 42 o dan Ddeddf NERC oherwydd bod poblogaethau'n prinhau neu am fod ganddynt statws 'mewn perygl'[17]. Ar gyfer pryfed peillio eraill, ychydig iawn o ddata penodol i Gymru sydd ar gael, os o gwbl, ond nid oes unrhyw reswm dros gredu bod y tueddiadau dirywio a welir ledled y DU yn wahanol yng Nghymru.

## *Y prif feysydd pryder*

Nododd yr Asesiad Tystiolaeth Cyflym[18] 5 prif faes pryder ar gyfer pryfed peillio cadw a gwyllt:

- Dwysáu amaethyddol a'r symudiad tuag at ffermio ungnwd
- Newid, dinistrio neu ddarnio cynefinoedd
- Clefyd
- Agrogemegau
- Y newid yn yr hinsawdd

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am bwysigrwydd y pryderon hyn ac i ba raddau y mae cydberthynas rhyngddynt. Maent yn destun gwaith ymchwil fel y Fenter Pryfed Peillio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r meysydd hyn wedi'u hystyried o safbwynt eu heffaith yng Nghymru a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â nhw.

---

[14] Data'n deillio o Fox, R., Brereton, T.M., Asher, J., Botham, M.S., Middlebrook, I., Roy, D.B. a Warren, M.S. 2011. *The State of the UK's Butterflies 2011*. Butterfly Conservation and the Centre for Ecology & Hydrology, Wareham, Dorset.
[15] Data'n deillio o Fox, R., Conrad, K.F., Parsons, M.S., Warren, M.S. and Woiwod, I.P. 2006. *The State of Britain's Larger Moths.* Butterfly Conservation and Rothamstead Research, Wareham, Dorset.
[16] Y Cynllun Cenedlaethol Cofnodi Gwyfynod.
[17] I weld rhestri Adran 42, ewch i: http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Section-42-Lists
[18] Llywodraeth Cymru, 2012, Asesiad Tystiolaeth Cyflym o'r Sail Dystiolaeth Bresennol ar Bryfed Peillio, heb ei gyhoeddi.

## Dwysáu amaethyddol a'r symudiad tuag at ffermio ungnwd

Dyma un o'r rhesymau allweddol dros ddirywiad pryfed peillio. Mae bron 80% o dir Cymru'n dir amaethyddol. O'r tir hwnnw, mae 61% yn dir pori parhaol, gydag ychydig iawn o rywogaethau blodeuol arno i gynnal pryfed peillio, a 24% yn dir pori garw. Dim ond 12% o'r tir amaethyddol sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau âr megis olew had rêp a chodlysiau, sydd ag angen pryfed peillio arnynt ac sy'n eu cynnal[19]. Fodd bynnag, gall dulliau eraill o ddefnyddio tir ffermio, megis coetiroedd a pherllannau, gwrychoedd/perthi ac ymylon caeau, fod o gymorth. Mae 226,134 hectar (13%) o'r tir amaethyddol ar hyn o bryd o dan Glastir, cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru, sy'n cynnwys llawer o opsiynau sy'n llesol i bryfed peillio.

## Newid, dinistrio neu ddarnio cynefinoedd

Collwyd llawer iawn o gynefin glaswelltir iseldir cyfoethog ei rywogaethau (neu led-naturiol) ledled Cymru yn ystod yr 20fed Ganrif. Amcangyfrifir i 91% o laswelltir iseldir lled-naturiol gael ei golli dros gyfnod o 50 i 60 mlynedd rhwng y 1930au a'r 1990au. Amcangyfrifwyd y collwyd cymaint â 97% o laswelltir yr iseldir sydd heb ei wella[20].

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan CCGC yn 2004 o laswelltiroedd iseldir cyfoethog eu rhywogaethau nad oeddent yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cofnodwyd colled neu ddifrod sylweddol mewn 25% o'r safleoedd (dros gyfnod cyfartalog o 8 mlynedd rhwng arolygon)[21].

Mae gweunydd yn bwysig iawn i bryfed peillio gan eu bod yn darparu digonedd o flodau tua diwedd y tymor. Gall cynhyrchwyr mêl ddibynnu ar rug, ac mae mêl grug yn gynnyrch hynod boblogaidd o hyd. Mae gweunydd wedi bod yn prinhau ers canol y ddeunawfed ganrif, ac mae rhai o ffigurau Cymru'n dangos, er enghraifft, y collwyd 97% o weunydd gwlyb a 50% o weunydd sych rhwng 1920/2 a 1987/8 yn Llŷn[22]. Mae llawer o'r gweunydd hyn mewn cyflwr gwael hefyd.

Mae 13% o'r tir yn goetiroedd (gan gynnwys coetiroedd fferm) a choedwigoedd a allai ddarparu gwell cyfleoedd i bryfed peillio.

[19] Llywodraeth Cymru, 2012, *Ffeithiau a Ffigurau Ffermio*, http://cymru.gov.uk/topics/statistics/publications/farmfacts12/?lang=cy
[20] Stevens, D. P., Smith, S. L. N., Blackstock, T. H., Bosanquet, S. D. S., Stevens, J. P. 2010. *Grasslands of Wales. A survey of lowland species-rich grasslands, 1987–2004*. Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd. Stevens et al. (2010).
[21] Stevens et al, 2010, megis uchod.
[22] Stevens, J.P. (1992). *Vegetation change in Llyn between 1920/2 and 1987/8. CCW Science Report 36.* Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.

## Clefyd

Mae plâu a phathogenau di-asgwrn-cefn (feirysau, bacteria a ffyngau microsboridiaidd) yn lladd llawer o bryfed peillio, ac maent wedi'u hastudio orau mewn gwenyn mêl. Y gwiddon *Varroa* yw fector llawer o feirysau sy'n gyfrifol am ddirywiad nythfeydd gwenyn mêl. Mae *Varroa* yn amharu ar imiwnedd y cynhaliwr ac yn cynyddu llwyth y feirws. Fodd bynnag, yn aml mae gwenyn wedi'u heintio â llawer o wahanol blâu a phathogenau, ac mae'r rhain yn amrywio'n ddaearyddol ac yn dymhorol.

Mae hi hefyd yn dod yn glir y gall llawer o blâu a phathogenau ledaenu o fewn a rhwng gwenyn gwyllt a gwenyn cadw a phryfed peillio eraill o bosibl. Gall colli rhywogaethau anarbenigol, megis llawer o rywogaethau o gacwn, o ganlyniad i glefyd gynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhwydweithiau peillio'n chwalu. Câi hynny effeithiau negyddol ar yr ecosystem ehangach[23].

Mae colledion dros y gaeaf yn ddigwyddiad tymhorol naturiol nad oes modd ei osgoi, ac mae'n amrywio yn ôl amodau tywydd/porthiant y tymor blaenorol ac yn ystod y gaeaf. Gall hwsmonaeth dda gan geidwaid gwenyn leihau colledion.

Yn hanesyddol, mae ceidwaid gwenyn wedi disgwyl colli tua 10% o'u nythfeydd yn ystod y gaeaf ond mae'r cynnydd yn y niferoedd yn yr haf yn fwy na gwneud yn iawn am hynny. Achosodd lledaeniad *Varroa* o 1994 ymlaen yng Nghymru lawer mwy o golledion. Wrth i geidwaid gwenyn ddysgu i reoli *Varroa*, cafwyd llai o lawer o golledion yn sgil *Varroa* yn ystod y gaeaf. Er hynny, mae colledion y gaeaf ers 2011 yn awgrymu ffigurau ychydig yn uwch na'r disgwyl, sef 14%-22% yn 2011 a 15%-19% yn 2012[24].

## Agrogemegau

Mae defnyddio gwrteithiau a phlaladdwyr wedi bod yn rhan o'r symudiad tuag at ffermio mwy dwys yng Nghymru. Mae yna gryn bryder ynglŷn ag effeithiau uniongyrchol posibl plaladdwyr megis *neonicotinoids* ar bryfed peillio cadw a gwyllt.

Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau effaith plaladdwyr ar bobl, bywyd gwyllt, planhigion a'r amgylchedd i'r lefel isaf posibl ond gan sicrhau bod plâu, clefydau a chwyn yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Y newid yn yr hinsawdd

Mae yna ansicrwydd ynglŷn â'r graddau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bryfed peillio yn y DU. Efallai y gall pryfed peillio sydd â dosbarthiad hinsoddol eang, megis gwenyn mêl, addasu. Fodd bynnag, nid yw dyddiadau blodeuo planhigion bwyd a dyddiad ymddangosiad pryfed

---

[23] Awduron amrywiol, 2012, Linking research and policy workshop report, UK Science and Innovation Network.
[24] Data o Beebase, yr Uned Wenyn Genedlaethol.

peillio bob amser yn cyd-daro os ydynt yn ymateb i sbardunau amgylcheddol gwahanol. Mae’r bwlch rhwng cyrens duon a’u pryfed peillio wedi cynyddu 28 diwrnod ers y 1970au. Gallai hyn olygu cyfnodau o newyn i bryfed peillio, gan effeithio’n arbennig ar bryfed peillio gwyllt sydd heb lawer o storfeydd bwyd. Mae cacwn yn arbennig o agored i niwed gan eu bod yn gwbl ddibynnol ar y dirwedd, heb y posibilrwydd o gael y porthiant artiffisial a roddir i wenyn mêl cadw[25].

## *Llywodraethu a seilwaith*

Mae llawer o sefydliadau yng Nghymru’n poeni am reoli, gwarchod a monitro pryfed peillio yng Nghymru, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi cyfrannu fel rhanddeiliaid at ddatblygu’r Cynllun hwn.

### Pryfed peillio cadw

Mae’r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) yn darparu’r Rhaglen Iechyd Gwenyn ar ran Llywodraeth Cymru (a Defra) o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Ers 2009, mae gwaith yr NBU wedi’i bennu’n bennaf gan y Cynllun Gwenyn Iach.

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru’n elusen gofrestredig sy’n hyrwyddo buddiannau ceidwaid gwenyn Cymru, ac mae Canolfan Genedlaethol Gwenynwyr Cymru (a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig) yn ceisio helpu i ddatblygu diwydiant bywiog, iach ac amgylcheddol gyfrifol yng Nghymru.

### Pryfed peillio gwyllt

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (y bydd ei swyddogaethau’n trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013) yw ein cynghorwr statudol ar gadwraeth natur.

Mae cyrff anllywodraethol sy’n helpu i warchod a rheoli pryfed peillio’n cynnwys Buglife, yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, Gwarchod Glöynnod Byw Cymru, Flowerscapes, Cyfeillion y Ddaear Cymru, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched, Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru, Plantlife ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru.

Mae dyletswydd ar y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i roi sylw priodol i fioamrywiaeth o dan Ddeddf NERC wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Ar hyn o bryd, nid oes yna ganolbwynt yng Nghymru ar gyfer gwaith a gwybodaeth am bryfed peillio, er bod llawer o’n rhanddeiliaid yn gweithio gyda’i gilydd tuag at amcanion cyffredin.

[25] Llywodraeth Cymru, 2012, Asesiad Tystiolaeth Cyflym o’r Sail Dystiolaeth Bresennol ar Bryfed Peillio, heb ei gyhoeddi.

## *Ymchwil a Mentrau*

Mae llawer o ymchwil yn cael ei gynnal yn fyd-eang, yn Ewrop ac yn y DU ar bryfed peillio.

Nod prosiect STEP (Status and Trends of European Pollinators) yw asesu statws a thueddiadau presennol pryfed peillio yn Ewrop, mesur pwysigrwydd cymharol gwahanol sbardunau ac effeithiau newid, nodi polisïau a strategaethau lliniaru perthnasol a dosbarthu'r wybodaeth i amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Yn y DU, mae'r Fenter Pryfed Peillio'n darparu cronfa o hyd at £10 miliwn i gefnogi sawl prosiect i wella dealltwriaeth a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith ymchwil pellach a'r angen am dystiolaeth.

Yng Nghymru, mae llawer o waith yn cael ei wneud i gefnogi a darparu ar gyfer pryfed peillio, er enghraifft:

- mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ein Partner Gwyddoniaeth Strategol, sawl prosiect ar waith, gan gynnwys gwenyna a garddio cymunedol.
- Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru ac mae ganddo lawer o fentrau i wella ein hamgylchedd lleol, gan gynnwys Trefi Taclus ac Eco-Sgolion Cymru.
- Mae llawer o Awdurdodau Lleol ledled Cymru'n cymryd rhan yn Planting for Pollinators, prosiect Cymru Fyw a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu ac yn rheoli parciau, mannau gwyrdd, parciau gwledig a gwarchodfeydd natur lleol. Yn ogystal, mae gan lawer gynlluniau plannu blodau gwyllt llwyddiannus ar ymyl ffordd a chylchfannau.

# 4. Agenda ar gyfer Gweithredu

Rydym wrthi'n datblygu ein polisi ar reoli adnoddau naturiol, gan gynnwys gwneud y dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn rhan annatod o'r gwaith o reoli adnoddau'r tir, y môr a'r aer ac adnoddau byw yng Nghymru. Mae'r manteision posibl ar gyfer yr amgylchedd yn cynnwys:

- Mwy o fuddsoddiad a dargedir mewn gwelliannau amgylcheddol
- Camau cadarnhaol i fynd i'r afael â sbardunau sylfaenol newid amgylcheddol
- Mwy o wydnwch i wrthsefyll canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd a lleihau eu heffeithiau
- Dull strategol o hyrwyddo adfer rhywogaethau a chynefinoedd; ac
- Ystyriaeth ddyfnach wrth benderfynu ar y manteision a gawn o'n hamgylchedd.

Mae dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru'n dangos mai'r ffordd orau o sicrhau'r manteision hyn fyddai trwy ddarparu cynefinoedd gwell a mwy cysylltiedig a fydd yn cynnal pryfed peillio gwyllt a chadw ar dir ffermio, yng nghefn gwlad yn ehangach ac mewn ardaloedd trefol a datblygedig.

Dylid cefnogi hyn trwy sicrhau poblogaethau iach o bryfed peillio, mwy o ymwybyddiaeth o bryfed peillio a'u pwysigrwydd a pholisïau a llywodraethu cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar sylfaen gadarn o dystiolaeth.

Cynigir y canlyniadau a'r meysydd canlynol ar gyfer gweithredu.

O dan bob Maes Gweithredu, rydym wedi amlinellu enghreifftiau o weithredu y byddwn ni fel Llywodraeth Cymru'n ei gynnal neu'n ei archwilio ymhellach.

Rydym yn cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid o bob cwr o Gymru ac yn croesawu eich sylwadau a'ch adborth ar y meysydd gweithredu hyn, yn enwedig o ran sut i'ch helpu i'w cynnal.

## *Canlyniad: Mae Cymru'n darparu cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig i gynnal ein pryfed peillio*

Er mwyn gwella amodau ar gyfer pryfed peillio gwyllt, mae'n hanfodol ein bod yn darparu cynefinoedd buddiol lle bo hynny'n bosibl ledled Cymru (er na ddylid gwneud hyn ar draul cynefinoedd pwysig eraill) ar raddfa'r dirwedd ac ar raddfeydd llai o faint.

## Maes Gweithredu 1: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio

Tir ffermio yw 80% o arwynebedd tir Cymru ac er bod Glastir yn cynnig llawer o opsiynau i wella amodau ar gyfer pryfed peillio, gellir gwneud mwy hefyd ar dir ffermio y tu allan i gynlluniau neu dir nad yw'n gymwys ar gyfer cynlluniau o'r fath. Gall hynny gynnwys annog cynnal a chreu mwy o amrywiaeth o gynefinoedd ar dir ffermio, defnyddio cynlluniau ffermio organig, rhoi grantiau i dyddynwyr a defnyddio gwrychoedd, coed a pherllannau'n glustogfeydd i ddarparu cynefinoedd er lles pryfed peillio.

O dan agenda eang diwygio'r PAC, efallai y byddwn yn ystyried pryfed peillio o dan drefniadau Colofn 1 a/neu weithredoedd o dan Golofn 2 fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar ôl 2014. Mae camau llesol i bryfed peillio, megis darparu clustogfeydd a choridorau, wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad presennol ar y Cynllun.

Bydd natur Cynllun Cymorth Organig newydd Glastir yn dibynnu ar y diwygiadau i'r PAC. Trwy beidio â defnyddio plaladdwyr a defnyddio llai o wrteithiau anorganig bydd ffermio'n helpu i ddiogelu pryfed peillio a'r fflora a ddefnyddiant; bydd hyn yn ategu'r opsiynau Glastir Sylfaenol a Glastir Uwch i helpu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pryfed peillio. Byddwn hefyd yn darparu hyfforddiant i swyddogion prosiect Glastir gyda'r nod o ddenu mwy o ffermwyr i ddewis cynnal yr opsiynau hyn.

Byddai mesurau syml i wella tir ffermio ar gyfer pryfed peillio'n cynnwys ychwanegu meillion at borfeydd fel ffynhonnell neithdar. Byddai hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy fachu nitrogen o'r aer i wella'r pridd. Byddwn yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio i gynnwys canllawiau a negeseuon allweddol am bryfed peillio yn ei raglen trosglwyddo gwybodaeth.

Er nad oes llawer o dir yng Nghymru sydd o dan gnydau âr, gallent fod yn ardaloedd targed lle gellid annog mwy o wenyna.

## Maes Gweithredu 2: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ehangach ar draws cefn gwlad

Mae rhwydwaith Natura 2000 Cymru (SoDdGA ac ACA) yn cwmpasu mwy na 700,000 hectar (8.5% o arwynebedd tir Cymru). Mae rhai o'r safleoedd hyn wedi'u dynodi'n arbennig i ddiogelu pryfed peillio fel britheg y gors. Mae bioamrywiaeth a phryfed peillio y tu allan i'r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried trwy Ddeddf NERC o dan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, ond gellid diogelu llawer o safleoedd a rhywogaethau'n well a chadw'r manteision i'n heconomi a'n cymunedau.

Mae camau gweithredu a awgrymir yn cynnwys mapio a nodi'r cynefinoedd gorau neu rai posibl ar gyfer pryfed peillio lle mae'r angen mwyaf am eu diogelu, cefnogi Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn gyson a hyrwyddo cysylltedd rhwng safleoedd.

Byddwn yn gweithio i wella cynefinoedd cefn gwlad trwy geisio sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar gyfer ardaloedd gwarchodedig, a diogelu a rheoli cynefinoedd sydd o fudd i bryfed peillio trwy Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth Awdurdodau Lleol.

Byddwn yn sicrhau bod diwygiadau i ganllawiau ar gynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn nodi'r angen i sicrhau budd i bryfed peillio.

Byddwn yn gweithio i gynnwys camau a fydd o les i bryfed peillio yn y meini prawf ar gyfer y cyllid a ddarparwn ar gyfer bioamrywiaeth.

Byddwn yn sicrhau bod cynnal pryfed peillio'n cael blaenoriaeth yn Strategaeth Fioamrywiaeth Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgorffori arferion gorau mewn perthynas â phryfed peillio yn Ystad Goed Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y gwaith presennol i wella coetiroedd ar gyfer fflora brodorol.

I gefnogi'r camau hyn, byddwn yn adolygu a hyrwyddo canllawiau arfer gorau ar gyfer pryfed peillio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid.

### Maes Gweithredu 3: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig

Mae 10% o'n tir yn dir trefol a datblygedig sy'n darparu llawer o gyfleoedd i hyrwyddo cynefinoedd a thirweddau blodeuol sydd o fudd i bryfed peillio yn ogystal â chymunedau lleol. Mae llawer o'r opsiynau er lles pryfed peillio'n rhad neu heb unrhyw gost i reolwyr tir, megis newid patrymau lladd gwair neu gadael ardaloedd o laswellt hir.

Bydd camau gweithredu'n cynnwys:

- Cefnogaeth i ddarparu parciau a mannau gwyrdd, a rhandiroedd
- sicrhau bod Gwobrau'r Faner Werdd yn cydnabod ac yn annog dulliau rheoli ar gyfer pryfed peillio
- hyrwyddo garddio er lles pryfed peillio, er enghraifft, trwy godi proffil planhigion sy'n llesol i bryfed peillio a mentrau ymgysylltu â'r gymuned.

Byddwn ni fel Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgorffori polisïau er lles pryfed peillio ar draws ein hystâd weinyddol (ein swyddfeydd a'n heiddo arbenigol) lle bo hynny'n briodol trwy ein contractau tirweddu a chynnal a chadw.

Byddwn yn parhau i annog partneriaid megis Cadwch Gymru'n Daclus i weithredu er lles pryfed peillio a thynnu sylw'r grwpiau cymunedol y maent yn gweithio gyda nhw at bwysigrwydd ystyried yr agwedd hon ar eu prosiectau. Byddwn yn gweithio tuag at gynnwys pryfed peillio fel ystyriaeth ar gyfer y cyllid yr ydym yn ei ddarparu.

Mae Polisi a Chanllawiau Cynllunio eisoes ar waith i gefnogi gwaith ar gyfer pryfed peillio mewn datblygiadau newydd trwy TAN 5. Byddwn yn ystyried cynnwys arferion sy'n llesol i bryfed peillio wrth adolygu canllawiau polisi cynllunio tai cynaliadwy.

Ym maes Trafnidiaeth, byddwn yn ceisio adolygu ein canllawiau presennol a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Gefnffyrdd.

## *Canlyniad: Mae gan Gymru boblogaethau iach o bryfed peillio*

Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru er mwyn cynnal y gwasanaeth peillio y maent yn ei ddarparu.

### Maes Gweithredu 4: Cefnogi gweithredoedd y DU i hyrwyddo poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Cynllun Gwenyn Iach ac yn ariannu'r Uned Wenyn Genedlaethol yn unol ag unrhyw argymhellion perthnasol a wneir ar ôl yr ymgynghoriad presennol ar ddarparu'r Polisi Iechyd Gwenyn. Byddwn yn gweithio gyda'r Uned Wenyn Genedlaethol a Defra i roi cynllun wrth gefn ar waith ar gyfer delio â phlâu a chlefydau gwenyn mêl yng Nghymru.

Byddwn yn monitro'r sefyllfa mewn perthynas â chyflwyno gwenyn estron at ddibenion peillio masnachol.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fonitro'r defnydd o blaladdwyr; ac yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gwaharddiadau a gyflwynir. Gan mai cymharol ychydig o dir a geir yng Nghymru lle defnyddir y plaladdwyr hyn, efallai y bydd angen i ni ganolbwyntio ymdrechion ar godi ymwybyddiaeth o effeithiau defnyddio plaladdwyr mewn ardaloedd trefol ar bryfed peillio.

Byddwn yn parhau i gefnogi gwenynwyr a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cysylltiedig o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Byddwn hefyd yn sicrhau bod cynhyrchwyr mêl yn parhau i gael cymaint o gymorth â phosibl i ddatblygu'r farchnad trwy ein rhaglenni marchnata.

## *Canlyniad: Mae pobl Cymru'n fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli*

Er bod gwenyn a'u pwysigrwydd i ecosystemau iach yn ddigon hysbys ac yn cael eu cefnogi, mae angen gwneud llawer mwy o waith i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision pryfed peillio a sut y gallent yn rhwydd wella'u hamodau. Mae hyn hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd economaidd pryfed peillio, er enghraifft, dywedodd dros 70% o'r ymwelwyr a holwyd gan Croeso Cymru mai ansawdd amgylchedd Cymru oedd un o'r prif resymau dros eu hymweliad.

**Maes Gweithredu 5: Gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a chynnwys pobl Cymru yn y gwaith o'u rheoli**

Byddwn yn defnyddio menter hynod lwyddianus Eco-Sgolion yng Nghymru i wella gwybodaeth a chyfleusterau mewn ysgolion am bryfed peillio a'u pwysigrwydd.

Byddwn yn chwilio am ffyrdd i estyn y gwaith y mae rhanddeiliaid eisoes yn ei wneud i ddarparu gwybodaeth a datblygu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer yr holl bryfed peillio.

Byddwn yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu'r gwaith 'plannu ar gyfer bywyd gwyllt' a chanolfannau garddio, a gyflwynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ac ystyried y potensial ar gyfer gweithgareddau eraill o'r fath.

Byddwyn yn hyrwyddo canllawiau arfer da gydag Awdurodau Lleol, rheolwyr tir a'r cyhoedd ac yn gweithio gyda chynlluniau gwobrwyo i hyrwyddo arferion er lles pryfed peillio, gan adeiladu ar waith blaenorol.

Byddwn yn hyrwyddo arferion sydd o les i bryfed peillio ymhlith ffermwyr trwy Gwlad a rhaglen trosglwyddo gwybodaeth Cyswllt Ffermio.

## *Canlyniad: Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio*

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud llawer o waith i gefnogi pryfed peillio, er nad yw hyn yn amlwg bob amser. Yn gyffredinol, mae polisïau sy'n dda i bryfed peillio yn dda i fioamrywiaeth ac felly iechyd yr ecosystem ehangach. Mae'n bwysig bod polisïau'n cysylltu â'i gilydd i gryfhau ecosystemau iach gymaint â phosibl. Mae yna fylchau yn ein gwybodaeth am statws a thueddiadau pryfed peillio yng Nghymru, ac yn enwedig yng nghydberthynas effeithiau arnynt.

### Maes Gweithredu 6: Cysylltu polisïau Llywodraeth Cymru â'i gilydd i gynhyrchu camau gweithredu buddiol sy'n dda i bryfed peillio ac iechyd yr ecosystem

Mae'r angen am bartneriaeth a'r dull integredig sy'n ofynnol er mwyn darparu er lles bioamrywiaeth yn sail i'r holl feysydd gweithredu er lles pryfed peillio, a byddwn yn ceisio rhoi mecanwaith ar waith i ddatblygu'r gweithredoedd y cytunwyd arnynt a chynghori arnynt.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Dull Rheoli'r Ecosystem wrth wneud penderfyniadau, gan ystyried gweithredoedd er lles pryfed peillio fel gwasanaeth ecosystem hanfodol.

Byddwn yn datblygu a gweithredu strategaeth fioamrywiaeth sy'n cydnabod pryfed peillio.

Byddwn yn gweithio o fewn Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at bwysigrwydd bioamrywiaeth a phryfed peillio, gan sicrhau manteision ar draws Adrannau.

## Maes Gweithredu 7: Creu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi gweithredoedd fydd o les i bryfed peillio i'r dyfodol

Er bod llawer o ymchwil yn cael ei gynnal ar bryfed peillio, mae yna lawer o fylchau yn y dystiolaeth ynghylch eu statws a'u tueddiadau, y rhyngweithio rhwng bygythiadau i bryfed peillio a dulliau lliniaru.

Yng Nghymru, mae angen data llinell sylfaen arnom a monitro poblogaethau pryfed peillio er mwyn medru monitro canlyniadau'r cynllun hwn. Mae gwerth gwasanaethau peillio i Gymru yn faes ymchwil pwysig ymchwil i'r dyfodol.

Byddwn yn cydweithio mwy â mentrau ymchwil y DU i wella gwybodaeth i Gymru.

Byddwn yn gweithio tuag at wella'r mesurau arsylwi a monitro pryfed peillio i wireddu ein rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a gwella ein sylfaen o dystiolaeth ar ddefnyddio Adran 42 o restrau Deddf NERC.

Byddwn yn monitro canlyniadau'r cynllun gweithredu hwn, gan ddatblygu dangosyddion yn ymwneud â:

- Phoblogaethau pryfed peillio
- Cynefin sy'n llesol i bryfed peillio
- Ymwybyddiaeth y cyhoedd

## 5. Casgliad a Chamau Nesaf

Yn y Cynllun Gweithred drafft hwn, rydym wedi ceisio dangos pwysigrwydd pryfed peillio yng Nghymru, eu statws presennol a'r prif resymau dros eu prinhad. Rydym wedyn wedi cynnig y canlyniadau y byddwn yn gweithio tuag atynt er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, ac wedi rhoi rhai enghreifftiau o'r camau y gallwn ni fel Llywodraeth Cymru eu cymryd.

Mae'r angen am bartneriaeth a'r dull integredig sy'n ofynnol er mwyn darparu er lles bioamrywiaeth yn sail i'r holl feysydd gweithredu er lles pryfed peillio. Rydym yn croesawu eich mewnbwn a'ch adborth ar y cynllun drafft hwn, yn enwedig sut y gallwch chi gyfrannu ymhellach a sut y gallwn ni eich helpu i wneud hynny.

Rydym yn bwriadu lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ym mis Gorffennaf 2013, a byddwn yn ceisio cwblhau cynllun cyflawni a gweithredu dros y misoedd nesaf.